**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**MESUR DEMOCRATIAETH LEOL, DATBLYGU ECONOMAIDD AC ADEILADU**

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol

1. “Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai Senedd y D.U. ystyried darpariaethau Mesur Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu o ran deisebau at awdurdodau lleol, i'r graddau y mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.”

## Y cefndir

2. Cyflwynir y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol hwn gan Dr Brian Gibbons AC, Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol o dan Reol Sefydlog 26.4 o Reolau Sefydlog (RhS) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad Cenedlaethol). Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan RhS26.2. Mae RhS26 yn rhagnodi bod rhaid cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, a bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os oes Mesur Seneddol gan y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

3. Cafodd y Mesur Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu (y Mesur) ei gyflwyno ar 4 Rhagfyr 2008. Gellir canfod y Mesur yn:

http://services.parliament.uk/bills/2008-09/localdemocracyeconomicdevelopmentandconstruction.html

## Crynodeb o'r Mesur a'i Amcanion Polisi

4. Noddir y Mesur gan yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol. Prif bwrpas y Mesur yw hybu democratiaeth leol a datblygiad economaidd, datganoli mwy o rym i lywodraeth leol a chymunedau a sicrhau tegwch mewn contractau adeiladu.

5. Mae'r Mesur yn cynnwys ychydig o ddarpariaethau ar gyfer Cymru sydd yr un mor gymwys i Loegr - dyletswydd ar awdurdodau lleol i hybu democratiaeth ac i sefydlu cynllun deisebau; pŵer i Archwilydd Cyffredinol Cymru benodi archwilydd ar gyfer endidau penodol sy'n gysylltiedig ag

awdurdodau lleol Cymru ac i gyhoeddi adroddiad budd cyhoeddus ynghylch yr endidau hynny os yw'n briodol gwneud hynny; a darpariaeth fydd yn gwella llif arian a hawliau i benderfyniad mewn contractau adeiladu.

6. Mae'r Mesur hefyd yn cynnig estyn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol fel y gall basio Mesur Cynulliad mewn perthynas â threfniadau llywodraethu a chraffu yn llywodraeth leol Cymru drwy fewnosod Materion ym Maes llywodraeth leol yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Darpariaethau yn y Mesur y ceisir cydsyniad iddynt.**

7. Mae pennod 2 o'r Mesur yn darparu ar gyfer deisebau i awdurdodau lleol. Bydd yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas â deisebau, gan gynnwys dyletswydd i sefydlu cynllun deisebau. Yn benodol:

- Mae cymal 11 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lunio, cyhoeddi a chydymffurfio â chynllun i ymdrin â deisebau ar bapur ac ar ffurf electronig a wneir i'r awdurdod.
- Mae cymal 12 yn darparu beth sydd i'w gyfrif yn ddeiseb ddilys.
- Mae cymal 13 yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau deisebau gydnabod deisebau dilys.
- Mae cymal 14 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gymryd camau mewn ymateb i ddeisebau dilys "gweithredol" ar faterion perthnasol, sef materion sy'n ymwneud â swyddogaethau'r awdurdod. O ran Cymru, caiff Gweinidogion Cymru bennu materion drwy orchymyn na fernir eu bod yn ymwneud â swyddogaeth sy'n perthyn i'r awdurdod. Gall camau o'r fath, a osodir yng nghymal 14(6) gynnwys, er enghraifft, cynnal cyfarfod cyhoeddus neu gynnal ymchwiliad. Mae yna ddarpariaethau pellach, gan gynnwys caniatáu i drefnydd deiseb ofyn am drosolwg ac am i'r pwyllgor craffu adolygu ymateb yr awdurdod i'r ddeiseb.
- Mae cymal 19(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod mewn gorchymyn pa bethau y mae'n rhaid i ddeisebau eu cynnwys neu beidio â'u cynnwys. Mae cymal 19 (6) yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod i ddiwygio'i gynllun deisebau.
- Mae cymal 20(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru drwy orchymyn i gymhwyso'r dyletswyddau deisebu i gategori ehangach o awdurdodau lleol.

8. Dylid nodi fodd bynnag fod y Mesur yn cynnwys pŵer ar wahân i Weinidogion Cymru roi cychwyn ar y darpariaethau i alluogi Llywodraeth y Cynulliad i ymgynghori ar y ddyletswydd.

9. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â Mater 12.5(b)[1] yn Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i wneud

[1] Fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ymwneud Cyhoeddus mewn Iechyd 2007

*"darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad ag i awdurdodau perthnasol Cymru wneud trefniadau wrth arfer eu swyddogaethau ar gyfer sicrhau ymwneud pobl sy'n debyg o gael eu heffeithio gan arfer y swyddogaethau hynny, neu sydd â buddiant ynddynt".*

10. Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn fod gwneud darpariaeth ar gyfer cynllun sy'n gosod y camau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu cymryd mewn ymateb i ddeisebau ynghylch swyddogaethau awdurdodau lleol yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o dan fater 12.5 (b) ac felly mae angen sicrhau cytundeb y Cynulliad Cenedlaethol o dan RhS 26. Mae RhS 26 yn rhagnodi fod angen i Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei gyflwyno a'i osod, yn ei dro, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, os oes Mesur Seneddol gan y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

## Manteision defnyddio'r Mesur hwn

11. Fe ellid ymdrin â’r prif ddarpariaethau yn y Mesur, sy'n ymwneud â deisebau, mewn Mesur Cynulliad a wneid o dan fater 12.5(b) o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn yr achos hwn, fodd bynnag, mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Mesur Seneddol hwn gan y DU, sydd wedi rhoi cyfle i Lywodraeth y Cynulliad ystyried galwadau gan ddinasyddion am weithredu ar ffurf deisebau a fydd yn rhoi i'n dinasyddion hawl ddemocratig i godi pwnc gydag awdurdod lleol ac i gael y pwnc hwnnw wedi ei ystyried a chael ymateb iddo.

12. Gosodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn gerbron, a chyflwynwyd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w ystyried.

## Goblygiadau Ariannol

13. Bydd goblygiadau ariannol unrhyw ymgynghoriad, unrhyw ddeddfwriaeth neu ganllawiau dilynol sy'n codi yn y dyfodol i arfer y pŵer o osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sefydlu cynllun deisebau yn ddarostyngedig i roi ystyriaeth lawn i ba mor fforddiadwy ydynt o fewn cyllidebau yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, y Prif Grŵp Gwariant a Chostau Rhedeg Adrannol ac i Arfarniad Effaith Rheoliadol a fyddai'n cynnwys dadansoddiad cost a budd.

Dr Brian Gibbons AC
Gweinidog Cymru dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
Ionawr 2009